



Prif Weithredwyr a Phenaethiaid Cynllunio  
Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

9 Ebrill 2020

Annwyl Cydweithwyr

## **CORONAFEIRWS COVID 19 – CYFLWYNO HAWLIAU DATBLYGU A GANIATEIR NEWYDD AR GYFER CYRFF Y GWASANAETH IECHYD**

Mae'r llythyr hwn yn esbonio'r newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GDCG").

Mewn ymateb i'r heriau eithriadol a berir gan COVID-19, mae diwygiad ychwanegol wedi'i wneud i'r GDCG. Bydd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2020 ("y Gorchymyn Diwygio") yn dod i rym am hanner nos ar 10 Ebrill 2020.

Mae'r Gorchymyn Diwygio yn mewnosod Rhan 3A (Adeiladu a Defnyddiau at Ddibenion Argyfwng Iechyd y Cyhoedd) newydd yn Atodlen 2 i'r GDCG, gan ganiatáu i gorff y GIG ymgymryd â datblygiad penodol at ddibenion atal, gwarchod yn erbyn neu reoli argyfwng iechyd y cyhoedd yn y Deyrnas Unedig, neu ddarparu ymateb i argyfwng o'r fath.

Caniateir newid defnydd adeilad neu dir o unrhyw ddsbarth yn yr Atodlen i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd neu unrhyw ddefnydd arall i Ddsbarth C2 (sefydliadau preswyl) neu Ddsbarth D1 (sefydliadau amhreswyl), a darparu adeiladau neu strwythurau eraill.

At y dibenion hyn, mae argyfwng iechyd y cyhoedd yn ddigwyddiad neu sefyllfa sy'n achosi neu a all achosi marwolaethau pobl, salwch neu anaf difrifol i bobl; neu sy'n amharu'n ddifrifol ar wasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd. Mae hyn yn cynnwys y pandemig COVID-19 presennol.

Mae'r datblygiad a ganiateir yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ac amodau sydd hefyd wedi'u nodi yn y Rhan 3A newydd. Rhaid i gorff y GIG, neu'r sefydliad sy'n ymgymryd â'r datblygiad ar ei ran, roi gwybod i'r awdurdod cynllunio lleol. Yr eithriad yma yw pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn gweithredu ar ran corff y GIG.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae amod pellach yn cyfyngu ar gadw datblygiad a wneir o dan y rhan newydd hon i gyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar y dyddiad y dechreuwyd y datblygiad. Cyn diwedd y cyfnod hwn, rhaid cael gwared ar unrhyw adeiladau, strwythurau a godwyd neu waith arall a rhaid dod â'u defnydd i ben. Rhaid adfer y tir i'w gyflwr blaenorol neu i gyflwr arall y cytunwyd arno yn ysgrifenedig rhwng yr awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr. Mae angen cytundeb ysgrifenedig mewn amgylchiadau pan fo natur y datblygiad wedi newid y safle i'r fath raddau y mae'n anymarferol ei adfer i'w gyflwr blaenorol. Mewn achosion lle y cynigir cadw datblygiad yn hirach na 12 mis, byddwn yn disgwyl i gais cynllunio gael ei gyflwyno yn y ffordd arferol. Bydd hyn yna yn hwyluso cynnwys y cyhoedd yn y broses o ystyried rhinweddau cynllunio cadw'r datblygiad yn y lleoliad dan sylw.

Yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd, mae angen i'r GIG ymateb yn aml i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym er lles atal, rheoli neu leddfu argyfwng iechyd dynol. Derbynnir yn ystod adeg o'r fath y gall fod angen llacio'r gofynion rheoleiddiol arferol i leddfu'r pwysau sylweddol ar y GIG ac i alluogi cyrff y gwasanaeth iechyd i ymateb ac i ddarparu cyfleusterau i gyfyngu ar ei ledaeniad, ac i drin, profi a rheoli adferiad nifer uchel iawn o gleifion a gofalu amdanynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effeithiau argyfwng parhaus COVID-19 ar y system gynllunio a bydd yn dwyn ymlaen newidiadau deddfwriaethol pellach maes o law.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government